**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**BIL DIOGELU DATA A GWYBODAETH DDIGIDOL (RHIF 2)**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (RhS) 29.2. Mae RhS29 yn ei gwneud yn orfodol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu at ddiben sy'n newid y cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol Rhif 2 ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 8 Mawrth 2023. Mae'r Bil i'w weld yn: Data Protection and Digital Information No.2 Bill - Parliamentary Bills - UK Parliament.

**Amcanion y Polisi**

3. Amcanion datganedig polisi Llywodraeth y DU yw diweddaru a symleiddio fframwaith diogelu data'r DU gyda golwg ar leihau'r baich ar sefydliadau ond gan yr un pryd, gynnal safonau diogelu data uchel.

**Crynodeb o'r Bil**

4. Noddir y Bil gan yr Adran Wyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg (DSIT).

5. Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau ar gyfer rheoleiddio trefniadau prosesu gwybodaeth am unigolion byw a enwir ac na ellir mo'u henwi; am wasanaethau sy'n defnyddio gwybodaeth i bennu a gwirio ffeithiau am unigolion; ynghylch cael mynediad at ddata am gwsmeriaid ac am fusnesau; am breifatrwydd a chyfathrebu electronig; am wasanaethau sy'n darparu llofnodion electronig, seliau electronig a gwasanaethau ymddiriedaeth eraill; am ddatgelu gwybodaeth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn well; am roi cytundebau ar rannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r gyfraith ar waith; am gadw a chynnal cofrestrau genedigaethau a marwolaethau; am safonau gwybodaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr; sefydlu'r Comisiwn Gwybodaeth; am oruchwylio data biometrig; a dibenion cysylltiedig

6. Gosodwyd Mesur Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol yn wreiddiol yn Nhŷ'r Cyffredin ar 18 Gorffennaf 2022. Fodd bynnag, ataliwyd y Bil hwnnw cyn ei ail ddarlleniad. Mae'r Bil newydd hwn yn disodli'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol gwreiddiol.

7. Mae'r Bil yn 204 tudalen o hyd ac yn cwmpasu sawl maes polisi a chyfrifoldeb Gweinidogol.

*Ymgysylltu â Llywodraeth y DU*

8. Rheoliad gan yr Undeb Ewropeaidd (UE) yw'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) sy'n ymwneud â diogelu data a phreifatrwydd yn yr UE ac Ardal Economaidd Ewrop (AEE). Mae'n ymdrin hefyd â throsglwyddo data personol y tu allan i'r UE a'r AEE.

9. Daeth y GDPR i rym ar 25 Mai 2018 gan ymrwymo'n syth holl aelod-wladwriaethau'r UE. Derbyniodd Deddf Diogelu Data'r DU (DPA) 2018 ei Chydsyniad Brenhinol tua'r un pryd, ac mae'r ddau ddarn o ddeddfwriaeth ar y cyd yn llywodraethu trefniadau prosesu data personol yn y DU.

10. Pan ymadawodd y DU â'r UE, cadwyd y GDPR mewn cyfraith ddomestig fel 'GDPR y DU' a saif ochr yn ochr â DPA diwygiedig 2018.

11. Ym mis Rhagfyr 2020 cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Strategaeth Ddata Genedlaethol a nododd fframwaith ar gyfer 'datgloi' pŵer data i 'gryfhau'r economi' a 'chreu cyfleoedd' yn y dyfodol. Roedd y strategaeth yn nodi pum prif faes gweithredu i Lywodraeth y DU.

- Gwireddu gwerth data ar draws yr economi
- Sicrhau trefn rheoleiddio data ddibynadwy sy'n hybu twf
- Trawsnewid defnydd y llywodraeth o ddata er mwyn sbarduno effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau cyhoeddus
- Sicrhau diogelwch a gwydnwch y seilwaith y mae data'n dibynnu arno
- Hyrwyddo llif data ar draws y byd

12. Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU "Data: A new direction", dogfen ymgynghori i ofyn am farn ar nifer o gynigion i ddiwygio trefn gyfreithiol bresennol y DU ar gyfer diogelu data, yn bennaf GDPR y DU. Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnig 74 newid i brif elfennau GDPR y DU.

13. O ran yr ystod o gynigion sydd yn yr ymgynghoriad "Data: A new direction", y pryderon mwyaf o safbwynt Llywodraeth Cymru oedd:

    - Tanseilio hawliau unigolion (boed real neu ganfyddedig gan y gallai'r naill neu'r llall effeithio ar ymddygiad a gofid cyffredinol ynghylch preifatrwydd);
    - Posibilrwydd o golli Penderfyniad Digonolrwydd yr UE a'r effaith ar Gymru; a
    - Gwanhau annibyniaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) fel y rheoleiddiwr diogelu data yn y DU.

14. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i'r ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2021.

15. Cyn cyflwyno'r Bil gwreiddiol ym mis Gorffennaf 2022, ymgysylltodd Llywodraeth y DU â Llywodraeth Cymru ar lefel swyddogol drwy grwpiau traws-DU, i drafod agweddau ar gyfeiriad rhai meysydd yn y Bil.

16. Mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â Swyddogion Llywodraeth Cymru. Rhannwyd fersiwn ddrafft o'r Bil newydd gyda ni ar 7 Mawrth 2023, y diwrnod cyn ei gyflwyno.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

*Cymalau 54 a 56 – Rhan 2, Gwasanaethau Dilysu Digidol, Porth Gwybodaeth:*

17. Mae'r cymalau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth at ddiben darparu Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVS). Mae'r cymalau hyn yn rhoi pŵer i awdurdodau cyhoeddus ddarparu gwybodaeth bersonol am unigolion (o gael eu cydsyniad) i sefydliadau sy'n darparu DVS. Y pwrpas yw hwyluso darparu DVS a gwella'r gwasanaeth a gynigir i'r defnyddiwr. Mae'r cymalau hyn yn ymwneud â materion gwasanaethau cyhoeddus, economi a busnes sydd wedi eu datganoli.

18. Felly, maent yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

*Cymalau 61 i 77 – Rhan 3, Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau:*

19. Mae'r cymalau hyn yn darparu ar gyfer rhannu gwybodaeth am gwsmeriaid a busnesau i wneud data’n fwy ‘cludadwy’ (Data Clyfar) gan wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid a busnesau.

20. Maent yn rhoi dyletswydd ar ddeiliaid data i rannu data am gwsmeriaid a busnesau ac yn dileu’r cyfyngiadau sy'n amharu ar allu cwsmeriaid i gael mynediad i rai gwasanaethau. Mae'r pwrpas yn ymwneud â busnes a’r economi.

21. Mae'r darpariaethau hyn felly yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

*Cymal 92 – Rhan 4, Datgelu gwybodaeth er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus i ymgymeriadau:*

22. Mae’r cymal hwn yn estyn y pŵer rhannu data yn adran 35 o Ddeddf yr Economi Ddigidol (DEA) 2017, sy'n caniatáu i gyrff cyhoeddus penodedig (‘specified persons' yn y DEA) rannu data er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus yn well i unigolion ac aelwydydd. Byddai'r diwygiadau a gynigir yn estyn y pwerau hyn i wella’r ffordd y darperir gwasanaethau i fusnesau. Rhestrir ‘specified persons' yn Atodlen 4 DEA 2017 ac maent yn cynnwys yn Rhan 2 'Cyrff Cymru' (awdurdodau Cymreig datganoledig amrywiol).

23. Mae angen ein cydsyniad ar y cymal hwn gan mai ei bwrpas yw gwella'r modd y mae cyrff Cymru’n darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae’n fater felly sydd wedi'i ddatganoli. I'r graddau mai pwrpas y cymal hwn yw gwella'r modd y mae cyrff Cymru’n darparu gwasanaethau cyhoeddus, mae'r ddarpariaeth hon yn "ddarpariaeth berthnasol' at ddibenion RhS29.

*Cymal 93 – Rhan 4, Rhoi cytundebau rhannu gwybodaeth at ddiben gorfodi’r gyfraith ar waith:*

24. Mae'r cymal hwn yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau at ddiben rhoi cytundeb rhyngwladol sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r gyfraith ar waith (I-LEAP).

25. Mae gorfodi'r gyfraith yn cynnwys erlyn troseddau a rhoi cosbau troseddol. Mae gan Senedd Cymru gymhwysedd deddfwriaethol i ddarparu ar gyfer erlyn troseddau a rhoi cosbau troseddol ar ystod eang o faterion datganoledig, er enghraifft, troseddau amgylcheddol neu droseddau bywyd gwyllt.

26. Er bod Llywodraeth y DU wedi datgan mai pwrpas y pŵer gwneud rheoliadau yw atal a datrys troseddau, mae diffiniad eang i’r pŵer a gallai gael ei ddefnyddio i ddeddfu ar faterion eraill a allai effeithio ar feysydd datganoledig. O'r herwydd mae'r darpariaethau hyn felly yn "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS29.

27. Mae angen cydsyniad ar gyfer y ddarpariaeth hon gan ei bod yn cynnwys darpariaeth at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

**Barn Llywodraeth y DU am yr angen am gydsyniad**

28. Mewn gohebiaeth a anfonwyd at y Prif Weinidog gan Julia Lopez AS, y Gweinidog Gwladol yn yr Adran Wyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg ar 7 Mawrth, dywedodd Llywodraeth y DU y byddent yn gofyn i Senedd Cymru am eu cydsyniad i dri mesur yn y Bil:

- Rhan 3, Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau;
- Rhan 4, Datgelu gwybodaeth er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus i ymgymeriadau:
- Rhan 4, Rhoi cytundebau rhannu gwybodaeth at ddiben gorfodi’r gyfraith ar waith

29. Nid yw Llywodraeth y DU yn cytuno a oes angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru ar gyfer cymalau 54 a 56 - Rhan 2, Gwasanaethau Dilysu Digidol, Porth Gwybodaeth. Yn hytrach mae Llywodraeth y DU o'r farn y bydd DVS bob amser yn golygu defnyddio’r rhyngrwyd mewn rhyw ffordd, ac felly mae wedi’i gadw yn ôl am ei fod yn fater sy’n ymwneud â gwasanaethau'r rhyngrwyd.

30. Mae ymagwedd Llywodraeth y DU yn awgrymu y byddai unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu drwy'r rhyngrwyd yn fater wedi'i gadw yn ôl. Mae hynny'n ddehongliad eithriadol o eang o'r mater neilltuedig hwn ac, yn fy marn i, ni all fod yn gywir.

**Barn Llywodraeth Cymru am y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol**

31. Drwy'r Bil, mae Llywodraeth y DU am wneud fframwaith diogelu data y DU yn fwy eglur a lleihau'r baich ar sefydliadau. Bydd y Bil yn diwygio hefyd strwythur llywodraethu a phwerau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), fel y rheoleiddiwr, ac yn eu trosglwyddo i gorff newydd, y Comisiwn Gwybodaeth. Hefyd, mae'r Bil yn ceisio galluogi defnydd mwy effeithiol o ddata personol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy fentrau megis Dilysu Hunaniaeth Ddigidol a chynlluniau Data Clyfar.

32. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella gwasanaethau cyhoeddus digidol drwy ddefnyddio data yn well, fel y nodir yn ein Strategaeth Ddigidol i Gymru. Rhaid felly sicrhau bod gan bobl a sefydliadau hyder llawn bod eu data'n cael eu trin yn gyfrifol ac yn ddiogel a'u defnyddio'n foesegol.

33. Fodd bynnag, mae pryderon y gallai'r Bil arwain at danseilio hawliau unigolion, a gwanhau annibyniaeth yr ICO fel y rheoleiddiwr.

34. Mae pryderon hefyd bod cyflwyno'r Bil yn creu risg i benderfyniad digonolrwydd presennol y DU, a roddwyd ym mis Mehefin 2021 gan yr UE am gyfnod o 4 blynedd i ddechrau. Mae'r posibilrwydd o golli penderfyniad digonolrwydd data'r UE yn bryder arbennig o safbwynt masnach gan y byddai hyn yn fygythiad mawr i fusnesau sy'n allforio o Gymru, sydd â'u prif farchnad dramor yn yr UE o hyd.

35. Bydd angen trafodaethau pellach gyda swyddogion Llywodraeth y DU i ddeall pa ddadansoddiad cyfreithiol a pholisi sydd wedi'i gynnal ar y tebygolrwydd y gallai hynny ddigwydd ac ar unrhyw gamau lliniarol.

36. Mae'r rhan fwyaf o'r Bil yn ymwneud â materion a ddargedwir am fod diogelu data yn fater wedi'i gadw yn ôl, bod gwerthu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau i ddefnyddwyr yn fater wedi'i gadw yn ôl, bod telathrebu yn fater wedi'i gadw yn ôl, a bod cofrestru genedigaethau, marwolaethau a mannau addoli yn fater wedi'i gadw yn ôl, fel y nodir yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. O'r herwydd, rwy'n credu y gallai fod yn briodol i'r darpariaethau hyn gael eu gwneud drwy Fil y DU.

37. Fodd bynnag, mae yna faterion sy'n peri pryder y bydd angen eu datrys cyn y gallaf argymell y dylai Senedd Cymru roi ei chydsyniad i'r Bil hwn.

**Prif bynciau pryder y mae'n rhaid eu datrys cyn y gellir argymell rhoi cydsyniad:**

*Cymal 56 – Rhan 2, Gwasanaethau Dilysu Digidol, Porth Gwybodaeth:*

38. Mae'r cymal hwn yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys gyhoeddi Cod Ymarfer mewn perthynas â chymal 54, gan greu pŵer rhannu data caniataol sy'n galluogi awdurdodau cyhoeddus i rannu gwybodaeth am unigolyn â sefydliad sydd wedi ei gofrestru ar gofrestr y DVS, lle mae'r unigolyn wedi gofyn i'r sefydliad hwnnw ddarparu DVS. Mae'r cymal yn nodi bod yn rhaid i'r Cod fod wedi'i gyhoeddi o dan adran 125(4) o Ddeddf DPA 2018 ac yn gyson â'r adran honno a bod yn rhaid i Awdurdodau Cyhoeddus sy'n rhannu data ar gyfer DVS roi sylw i'r Cod.

39. Mae angen ystyried ymhellach oblygiadau datganoledig Cod Ymarfer ar lefel y DU. Cyhoeddaf safbwynt Llywodraeth Cymru maes o law.

*Cymalau 61 i 77 – Rhan 3, Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau:*

40. Gyda'i gilydd mae'r cymalau hyn yn rhoi'r pwerau canlynol i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys:
    - ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad data ddarparu data am gwsmeriaid naill ai i'r cwsmer neu i berson awdurdodedig; ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad data gynhyrchu, casglu neu gadw data ac i ddiwygio'r data; ac i dderbynnydd data arfer hawliau cwsmeriaid mewn perthynas â deiliad y data;
    - ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad data gyhoeddi data am fusnesau neu i ddarparu data am fusnesau ar gais i gwsmer y masnachwr, neu i "dderbynnydd trydydd parti";
    - ar gyfer gorfodi rheoliadau data a gorfodi gofynion, gan gynnwys gorfodi gan gorff cyhoeddus penodedig;
    - galluogi deiliaid data, gorfodwyr a phenderfynwyr (a'r rheini sy'n gweithredu ar eu rhan) ei gwneud yn ofynnol i bersonau eraill dalu ffioedd; a
    - ar gyfer ardoll i'w dalu gan ddeiliaid data i gorff cyhoeddus penodedig, gan gynnwys sut y mae'n rhaid defnyddio'r arian neu y gellid defnyddio'r arian.

41. Yn ogystal, o dan gymal 72 gall yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Trysorlys roi cymorth ariannol i orfodwyr a/neu benderfynwyr i dalu am gostau.

42. Mae angen ystyried ymhellach oblygiadau datganoledig y pwerau gwneud rheoliadau hyn sy'n cael eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Trysorlys. Cyhoeddaf safbwynt Llywodraeth Cymru maes o law.

*Cymal 93 – Rhan 4 Rhoi cytundebau rhannu gwybodaeth at ddiben gorfodi'r gyfraith ar waith*

43. Mae'r cymal hwn yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau, fel y gwelant yn dda, ar gyfer cytundebau rhyngwladol ar rannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r gyfraith.

44. Fy marn i yw y dylid rhoi pwerau priodol i Weinidogion Cymru allu gwneud rheoliadau at ddiben rhoi cytundeb rhyngwladol ar rannu gwybodaeth ar waith ar gyfer agweddau gorfodi'r gyfraith sydd o fewn cymhwysedd y Senedd. Mae'r mater hwn yn destun trafod â Llywodraeth y DU.

**Goblygiadau ariannol**

45. Mae’n bosibl y bydd gan Fil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) Llywodraeth Cymru oblygiadau ariannol i Gymru oherwydd cymal 72 sy’n rhoi’r pŵer i’r Ysgrifennydd Gwladol neu’r Trysorlys roi cymorth ariannol i ‘bersonau penodedig’. Mae gwaith yn cael ei wneud i ddeall beth fydd effaith hyn ar Gymru a rhennir gwybodaeth bellach pan fydd hynny’n bosibl.

**Casgliad**

46. Yn fy marn i, gall fod yn briodol delio â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn yn y DU gan mai’r Bil yw’r ffordd fwyaf effeithiol o ddod â’r darpariaethau hyn i rym.

47. Fy marn i yw ei bod yn briodol argymell rhoi cydsyniad i Gymal 54, Rhan 2, Gwasanaethau Dilysu Digidol a Chymal 92, Rhan 4, Datgelu gwybodaeth i wella gwasanaethau cyhoeddus i ymgymeriadau.

48. Ond yn fy marn i, ni fyddai’n briodol argymell rhoi cydsyniad i’r darpariaethau canlynol tan ar ôl cynnal trafodaethau pellach â Llywodraeth y DU am y materion a ddisgrifir ym mharagraffau 39-44 uchod:

- Cymal 56, Rhan 2, Gwasanaethau Dilysu Digidol;
- Cymalau 61 i 77, Rhan 3, Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau; a,
- Cymal 93, Rhan 4, Rhoi cytundebau ar rannu gwybodaeth ar gyfer gorfodi’r gyfraith ar waith.

**Mark Drakeford AS**
**Prif Weinidog**
**29 Mawrth 2023**